

RHAGARWEINIAD

Mae partner CALU, Coed Cymru, wedi bod yn casglu gwahanol rywogaethau o goed a llwyni i'w defnyddio mewn lleiniau cysgod. Roeddent yn chwilio am rywogaethau a chyltifarau gyda nodweddion manteisiol, megis cysgod trwchus gyda'r gwaelodion, twf uwch gwasgaredig, a hefyd sgil-gynnyrch defnyddiol, fel ffrwythau, cnau a phren.

Fe wnaethant edrych ar amrywiaeth eang o rywogaethau tymherus, ac ymweld hefyd â'r Agroforestry Research Trust yn Totnes, Dyfnaint. Mewn ardal debyg i iseldir Cymru, mae'r casgliad hwn wedi cael ei sefydlu am 12 mlynedd. Cafodd lleiniau cysgodi yn cynnwys gwahanol rywogaethau a chymysgedd eu plannu 12 mlynedd yn ôl i amddiffyn perllannau.

NODWEDDION MANTEISIOL

Yr egwyddorion sylfaenol yw creu llain gysgod sy'n lleihau llif gwynt i tua 50%. Gall llain gysgod rhy drwchus greu tyrfedd ac efallai gynyddu cyflymder y gwynt yn y man rydych yn ceisio'i amddiffyn. Yn ddelfrydol, bydd dwy neu fwy o resi o **gysgod lefel uchel heb fod yn rhy glos** gyda **rhes fwy clos** o lwyni is. Bydd y man a gaiff gysgod tua 10 i 20 gwaith uchder y coed.

GORCHUDD LEFEL ISEL AR GYFER AMDDIFFYN WYN, LLOI, CNYDAU ETC DDECHRAU'R TYMOR

Yn ddelfrydol, dylai rhywogaethau i roi cysgod ddechrau'r tymor fod yn glos, yn fythwyrdd neu'n deilio'n fuan ac yn oddefgar i gysgod. Mae'r rhan fwyaf o goed brodorol cyffredin, fel draenen wen, collen a draenen ddu yn deilio'n hwyr, ymhell ar ôl geni wyn. Mae celyn yn dda ond yn anodd ei gael i ledaenu ac mae'n hynod araf yn tyfu. Mae rhywogaethau eraill yn cynnwys **teulu'r gwsberen** (brodorol a 'Worcesterberry' gogledd America) a chyrens coch, **pren melyn (barberry)** (brodorol ac Asiaidd), **olewydden hydref** (*Eleagnus* spp, un fythwyrdd), a **mafon gwin (Japanese wineberry)**. Mae'r rhain i gyd wedi ymsefydlu ers tro yn y wlad yma ac nid ydym yn ymwybodol o unrhyw broblemau'n ymwneud ag ymledu direolaeth. Mae'r holl fathau o gwsberis a chyrens yn rhannu pathogenau ffwngaid â choed pîn, felly mae'n rhaid eu cadw ar wahân. Mae **môr-rafnwydd (sea buckthorn)** yn ddefnyddiol ar safleoedd arfordirol, ond mae'n gallu crwydro oni bai ei fod yn cael ei gadw dan reolaeth trwy ffensio a phori. Mae'r holl blanhigion hyn yn rhoi ffrwythau y gellir eu bwyta. Y mafon gwin a'r gwsberis yw'r rhai mwyaf blasus.



Ffig 2: Haen uchaf o helyg hybrid gyda mafon gwin trwchus o dani yn yr Agroforestry Research Trust



Ffig 1: Eirin ar y lefel uwch gyda chwyriail a choed llwyfen o danynt, ger Brynbuga

TWF GWASGAREDIG AR LEFEL UWCH

Dylai hwn weithredu fel hidlydd, yn hytrach na rhwystr i'r gwynt, i atal trolifau a gwynt yn tynnu i lawr. Mae rhywogaethau fel **bedwen, gwernen** ac **aethnen** yn dda iawn. Gall pîn fod yn dda tra mae'n ifanc. Mae yna nifer o fathau o **eirín, castanwydd pâr, a chnau Ffrengig** (Ewropeaidd, Japaneaidd ac Americanaidd) sy'n addas, a hefyd **derw bythwyrdd (holm oak)** mewn mannau arfordirol. I dyfu cnau Ffrengig bydd yn rhaid mynd ati'n drwyadl a chyson i gael gwared ar wiwerod. Mae **orenwydd dreiniog (osage orange)** yn cael eu tyfu'n helaeth fel gwrychoedd a lleiniau cysgod yn yr Unol Daleithiau ond mae'n anodd iawn cael gafael ar y planhigion ym Mhrydain. Gall rhai mathau o helyg fod yn briodol ond mae gan y rhain duedd o amharu ar ddraeniau os byddant yn cael eu plannu mewn mannau amhriodol.

SAFLEOEDD ARDDANGOS

Mae pedwar safle wedi cael eu sefydlu gan Coed Cymru (wedi eu cyllido gan CALU): dau yn yr uwchdir a dau ar yr arfordir. Bydd monitro'n parhau a chyhoeddir gwaith pellach ar wefannau Coed Cymru a CALU.

Gwybodaeth bellach

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi cyhoeddi arweiniad defnyddiol 'The Principles of Using Woods for Shelter' (Ebrill 2006). Gweler: <http://www.forestry.gov.uk/publications> i'w lwytho i lawr.

Ewch i wefan Coed Cymru i gael gwybodaeth am bob mater yn ymwneud â choetiroedd – www.coedcymru.org.uk

RHYWOGAETHAU A MATHAU A ARGYMHELLIR:

Twf lefel uchel:

Bedwen (gwlanog neu arian)

Gwernen (brodorol cyffredin)

Aethnen – rhywogaethau brodorol

Eirin, eirin ceirios ac eirin duon. Dewiswch blanhigion cryf gyda gwreiddiau da.

Castanwydd pêr, argymhellir '*Marigoule*' hybrid gan ei bod yn medru goddef oerni a rhoi cnwd da o gnau. Mae holl goed castanwydd pêr yn dda ar gyfer coed adeiladu etc.

Cnau Ffrengig. Mathau gwydn yw'r gorau. Argymhellir Cnau Ffrengig Duon (*Juglans nigra*) yn ogystal â rhai mathau Japaneaidd.

Mae Derw Bythwyrdd (*Quercus ilex*) yn gallu dioddef heli ond mae rhew caled yn effeithio arnynt.

Mae angen dewis helyg yn ofalus i fod yn gadarn mewn gwynt a gwrthsefyll afiechydon. Dylid dewis eu safle'n ofalus hefyd i osgoi difrod gan eu gwreiddiau.

Gorchudd lefel is:

Pren Melyn: argymhellir *Berberis darwinii* neu *asiatica*.

Elaeagnus: mae *angustifolia* ('Olewydden Rwsiaidd') yn golldail, tra bod hybrid *ebbingei* yn fythwyrdd ac yn gallu goddef cysgod.

Mae Môr Rafnwydd (*Hippophae ramnoides*) yn cynhyrchu ffrwythau oren ac yn gallu goddef heli.

Mae Mafon Gwin (*Rubus phoenicolasius*) yn cynhyrchu llawer o ffrwythau blasus tebyg i fafon ac yn rhoi cysgod lefel isel.

Worcesterberry: planhigyn tebyg i gwsberen sy'n cynhyrchu ffrwythau coch cyffelyb. Mae'n gallu goddef haul a chysgod ac mae'n deilio'n llawer cynt na draenen wen.

Mae gan gyrens coch, cyrens duon, cyrens alpaidd, morwydd, cyll a gwern hefyd eu rhagoriaethau.

CYFLENWYR

Agroforestry Research Trust Totnes, Devon:

www.agroforestry.co.uk

Deacons Nursery, Isle of Wight:

www.deaconsnurseryfruits.co.uk

Kore Wild Fruit Nursery, Trefynwy

www.korewildfruitnursery.co.uk

Dingle Nursery, Y Trallwng:

www.dinglenurseries.co.uk

Manse Organics, Llandeilo:

www.graftedwalnuts.co.uk

Musgrove Willows, Somerset:

www.musgrovewillows.co.uk